OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1469

# Rheoliadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2020

## RHAN 3

## Telerau swydd

### Aelodau nad ydynt yn swyddogion

**6.**—(1) Mae aelod nad yw'n swyddog yn dal swydd am unrhyw gyfnod, ac ar unrhyw delerau ac amodau, a bennir gan Weinidogion Cymru yn nhelerau'r penodiad, ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraffau (2), (3), (4) a Rhan 4.

(2) Ni chaiff cyfnod y swydd a bennir yn nhelerau penodiad aelod nad yw'n swyddog fod yn hwy na 4 blynedd.

(3) Caiff person sydd wedi dal swydd fel aelod nad yw'n swyddog fod yn gymwys i gael ei ailbenodi'n aelod nad yw'n swyddog ond ni chaiff person fod yn aelod nad yw'n swyddog am gyfnod cyfan sy'n hwy nag 8 mlynedd.

(4) Caiff aelod nad yw'n swyddog ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

### Aelodau sy'n swyddogion

**7.** Mae aelod sy'n swyddog yn dal swydd am unrhyw gyfnod, ac ar unrhyw delerau ac amodau, a bennir yn nhelerau'r penodiad.

### Aelodau cyswllt

**8.**—(1) Yn ddarostyngedig i Ran 4, mae aelod cyswllt a benodir yn unol â rheoliad 3(6)(a) yn dal swydd am unrhyw gyfnod, ac ar unrhyw delerau ac amodau, a bennir yn nhelerau'r penodiad.

(2) Pan fo aelod cyswllt wedi ei benodi gan IGDC yn unol â rheoliad 3(6)(a), rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo telerau ac amodau'r penodiad.

(3) Caniateir i berson sydd wedi dal swydd fel aelod cyswllt a benodir yn unol â rheoliad 3(6)(a) gael ei ailbenodi'n aelod cyswllt yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn nhelerau ei benodiad.

(4) Mae aelod cyswllt a benodir yn unol â rheoliad 3(6)(b) yn dal swydd am unrhyw gyfnod, ac ar unrhyw delerau ac amodau, a bennir yn nhelerau'r penodiad, ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraff (5).

(5) Ni chaiff cyfnod y swydd a bennir yn nhelerau penodiad aelod cyswllt a benodir yn unol â rheoliad 3(6)(b) fod yn hwy na 4 blynedd.

(6) Caiff person sydd wedi dal swydd fel aelod cyswllt a benodir yn unol â rheoliad 3(6)(b) fod yn gymwys i gael ei ailbenodi.